Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Tafod Glas

Feirws Seroteip 3 (BTV-3)

## Beth yw'r tafod glas?

**Clefyd hysbysadwy yw'r tafod glas sy'n effeithio ar anifeiliaid sy'n cnoi cil (fel gwartheg, defaid, geifr a cheirw) a chamelidau (fel alpacas a lamas). Mae'r tafod glas yn cael ei achosi gan feirws a gaiff ei ledaenu gan wybed sy'n brathu.**

**Nid yw'n effeithio ar bobl nac ar ddiogelwch bwyd. Mae'n ddiogel bwyta cig ac yfed llaeth.**

## Pryd wnaeth y tafod glas (BTV-3) gyrraedd y DU?

Cafodd yr achos cyntaf o feirws seroteip tafod glas newydd (BTV-3) ei gadarnhau yn Lloegr ar 10 Tachwedd 2023 ac mae achosion eraill o hen heintiau wedi cael eu canfod drwy waith gwyliadwriaeth yn ne-ddwyrain a dwyrain Lloegr.

Cafwyd yr adroddiad cyntaf ynghylch BTV-3 ym mis Medi 2023 yn yr Iseldiroedd ac ers hynny, mae wedi cael ei ganfod mewn sawl gwlad arall yng ngogledd Ewrop.

## Arwyddion clinigol i chwilio amdanynt

Gall BTV achosi twymyn, crawennau ac wlserau o amgylch ardal y ffroen, chwydd yn y pen, glafoerio a chloffni.

Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall achosi erthyliadau, camffurfiadau a marwolaeth mewn anifeiliaid. Nid oes arwyddion clinigol bob amser i'w gweld er bod haint yn bresennol.


Ar hyn o bryd nid oes brechlyn awdurdodedig ar gyfer BTV-3.



# Sut y caiff y tafod glas ei drosglwyddo?

Mae'n debygol iawn bod BTV-3 wedi cyrraedd Lloegr drwy wybed wedi'u heintio â BTV-3 a gafodd eu chwythu drosodd o Ewrop.

## Cylch trosglwyddo BTV




Gall y feirws gael ei drosglwyddo hefyd drwy gynhyrchion cenhedlu wedi'u heintio (semen, ofa ac embryonau) a'i drosglwyddo o'r fam i'w hepil yn y groth.

# Rheoli lledaeniad y tafod glas

- Y prif ffyrdd o reoli'r tafod glas yw drwy gyflwyno parthau rheoli a chyfyngiadau symud ar gyfer rhywogaethau a allai gael eu heintio yn y parthau hyn.
- Gall ceidwaid anifeiliaid sy'n cnoi cil a chamelidau helpu i leihau lledaeniad posibl y tafod glas drwy gadw llygad ar iechyd eu hanifeiliaid a rhoi gwybod am unrhyw arwyddion clinigol amheus.
- Mae'n **rhaid cofrestru eich holl dda byw â Taliadau Gwledig Cymru (RPW) a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**. Gallwch wneud hyn ar-lein yn **llyw.cymru/sut-i-gael-rhif-daliad-cph**
- Mae'n **rhaid i chi gofrestru'r holl dir ac adeiladau** a ddefnyddir i gadw da byw, hyd yn oed gosodiadau byrdymor, fel y gallwn olrhain lleoliad anifeiliaid a allai gael eu heintio er mwyn helpu i atal a rheoli'r clefyd.
- Rhaid cael trwydded briodol i symud anfeiliaid sydd ar safle sydd o dan gyfyngiadau'r tafod glas ac anifeiliaid mewn parthau rheoli clefydau penodol.
- Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn gwneud gwaith gwyliadwriaeth i ganfod y clefyd. Gall hyn gynnwys cymryd samplau gwaed ar ddaliadau gydag anifeiliaid a allai gael eu heintio mewn ardaloedd risg uchel ac mewn parthau rheoli clefydau.
- Ceir arweiniad ar gofrestru a thrwyddedu yn **Cofrestru a symudiadau anifeiliaid | LLYW.CYMRU**



## Mae'r tafod glas yn glefyd hysbysadwy.

Rhaid i chi fod yn wyliadwrus a chysylltu â'ch milfeddyg os bydd gennych unrhyw bryderon am iechyd a lles eich anifeiliaid.

Rhaid rhoi gwybod i APHA ar unwaith am unrhyw amheuon o'r tafod glas.

**Cymru**
03003 038 268

**Lloegr**
03000 200 301

**Yr Alban**
Ayr: 03000 600703
Galashiels: **03000 600711**
Perth: **03000 600704**
Inverness: **03000 600709**
Inverurie: **03000 600708**

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy fynd i:
**llyw.cymru/feirws-y-tafod-glas-btv**

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49924